# Yr Herw-heliwr a Deio Benrhydd

gan
MARI ELLIS

Ni chyhoeddwyd yr un nofel wreiddiol Gymraeg, hyd y gwn i, yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg ond fe ymddangosodd llawer o storïau yn y cylchgronau ac yn y papurau newyddion. Dyna oedd deunydd darllen ysgafn amser hamdden y cyfnod. Yn y cylchgrawn eglwysig *Y Gwyliedydd* — un digon prin erbyn hyn — ymddangosodd nifer o storïau-cyfres yn ystod y blynyddoedd 1821-31, y cwbl o dan ffug-enwau. Awdur o leiaf pedair ohonynt oedd Rowland Williams (1779-1854), ficer Meifod, sir Drefaldwyn. Bu ef yn gefn mawr i'r cylchgrawn, menter y bu'r personiaid llengar megis Ifor Ceri a Gwallter Mechain yn ei hybu yn eu ffyrdd eu hunain. Credai Rowland Williams yn angerddol yng ngrym y gair ysgrifenedig; dyna'r ffordd i gyrraedd at y werin a'i haddysgu. Er mwyn ei denu i ddarllen, rhaid wrth amrywiaeth, a rhan o'r amrywiaeth hwnnw oedd adrodd stori afaelgar.

Isod ceir bras-rediad o ddwy o'r storïau-cyfres hyn, sef 'Hanes Thomas Edwards, yr Herw Heliwr' a 'Hanes Deio Benrhydd':

Bachgen wedi ei ddifetha gan ei rieni oedd Thomas Edwards; ni chafodd ei ddisgyblu o gwbl, a phan wrthododd fynd i'r ysgol, gadawyd iddo. Gwrthodai fynd i'r eglwys hefyd, ac eithrio ar Ŵyl Fabsant y plwyf pan fyddai yno dipyn o rialtwch. Âi ar Sul y Pasg am fod pawb yn cael dillad newydd ar gyfer hynny. Mewn tafarndai, ei gwmni fyddai 'eurychod, simnai-ysgubwyr, mynegwyr tesni (sef dynion dweud ffortiwn), cardotwyr diog a thwyllwyr'. Haen isaf cymdeithas oedd y rhain. Wrth hela y cafodd ei lysenw Yr Herw Heliwr. Llanwai ei dŷ â dynion tebyg iddo ef ei hun a threulient oriau'n gloddesta ac yfed. Fe'i rhybuddiwyd gan y meistr tir i gadw draw oddi ar ei diroedd a bu'n rhaid ufuddhau am ychydig nes cael ei demtio i ailddechrau. Ni allai ei wraig ddylanwadu dim arno ac yntau'n mynd o ddrwg i waeth. Un diwrnod, pan oedd ei blentyn bychan yn glaf ac ar drengi o'r pâs, daeth 'dau geisbwl' i'r tŷ i hebrwng Thomas Edwards i garchar. O weld hyn disgynnodd ei wraig yn gelain o'u blaenau.

Ni wnaeth ei garcharu ddim lles i Thomas Edwards; daeth i gysylltiad â mwy o ddrwg-weithredwyr yno, ac wedi ei ryddhau, hwy oedd ei gwmni a chyda puteiniaid y treuliai ei nosweithiau. Diwedd y troseddu oedd iddo orfod sefyll ei brawf a chael ei ddedfrydu i'w alltudio i 'Ddeheubarth Cymru Newydd'.

Thomas ei hun sy'n adrodd y



stori, a hynny yn y carchar:

> . . . Bûm dros ddyddiau lawer yn druenusaf o'r holl ddynion a anwyd dan fedydd a chred . . . bu wiw gan offeiriad y carchar ymweld â mi, a rhoddi i mi y llewyrch cyntaf o ddiddanwch o lyfr Efengyl Iesu Grist.

Mae'n diweddu gyda'r rhybudd:

> Bydded i chwi arferu fy hanes i rybuddio eraill i ochelyd fy esiampl.

Neges y stori oedd dangos nad oedd pechu'n talu; wrth anwybyddu gras a thrugaredd Duw, dim ond cosb oedd i'w ddisgwyl. Yn yr oes honno ni fyddai neb yn esgusodi drwgweithredwyr trwy feio amgylchiadau eu magwraeth na gweld bai ar gymdeithas yn gyffredinol. Yr oedd Gair Duw i'w glywed yn yr eglwys yn gyson a dyletswydd pawb oedd mynd yno i wrando, cyffesu ei bechod a byw, '. . . rhagllaw mewn duwiol, union a sobr fuchedd'.

### DEIO BENRHYDD

Magwraeth rywbeth yn debyg a gafodd Deio Benrhydd yntau; ef oedd mab hynaf teulu a 'gaent barch nid bychan . . . oherwydd mai hwy oedd prif uchelwyr a blaenoriaid y plwyf hwnnw'. Am mai ef oedd yr etifedd, cafodd ei drin yn wahanol i'w frodyr:

> Byddai ei ddillad yn fwy costfawr; os byddai bara gwyn yn y tŷ, rhaid oedd i'r etifedd ei gael, er fod y plant eraill yn gorfod ymfodloni ar fara tywyll . . .

Effaith yr holl ffafrio oedd creu cenfigen tuag ato o du ei frodyr. Gwelodd y gweision a'r cymdogion hefyd ei bod hi'n talu iddynt roddi anrhegion iddo: 'brechdan fêl gan hen wragedd, siwgr candi gan wraig y siop,' enghreifftiau sy'n adlewyrchu'r cyfnod; ond gwydryn o win a roes y dafarnwraig iddo oherwydd fod ei dad yn gwsmer mor dda. Aethai'r tad a Deio i'w ganlyn i'r dafarn, lle byddai pawb yn stwffio diod iddo. A dyma sylw'r storïwr:

> . . . yr ydym, ysywaeth, fel clai gwlyb neu gŵyr melyn, yn hawdd ein ffurfio i'r hyn sydd ddrwg a llygredig.

Aethai Deio gyda'i dad i bob ffair a marchnad hefyd, lle byddai cyfle pellach i ddiota. Lle arall annisgwyl y byddent oedd angladdau, oherwydd yn y tŷ galar,

> . . . os ewch chi i un o'r ystafelloedd ychydig cyn codi y corph, bydd y bobl yno yn gwbl ddi-alar a digyffro yn yfed cwrw a chwifio myglys.

Wedi'r angladd âi'r 'galarwyr' i'r dafarn, 'i foddi pob meddwl difrifol a bucheddol'.

Tyfodd Deio i fod yn 'ŵr ieuanc grymus, nerthol ac yn ymladdwr medrus'; mynychai nosweithiau llawen, cyfarfodydd cwrw, gŵyl mabsant, ymladd ceiliogod, '. . . a chyffelyb gampau dibarch'. Gwelwn fod y noson lawen, a gyfrifir mor ddiniwed heddiw, ymhlith y cynulliadau amharchus. Canlyniad yr afradlonedd oedd anniweirdeb; cymerodd Deio arno ei fod yn caru merch ifanc landeg, a ddenwyd ato er gwaethaf rhybuddion ei rhieni. Ond ei threisio ac yna ei gwadu a wnaeth Deio:

> . . . a phan gyflawnwyd ei thymp i esgor bu farw yn y wasgfa gaeth honno, a chladdwyd hi a ffrwyth amrhydlon ei bru yn yr un bedd.

Er mwyn ceisio anghofio'r bennod aflednais hon yn ei hanes, penderfynodd Deio briodi â morwyn tŷ tafarn:

> . . . Ei glendid pryd nis gellir ei wadu, eithr am ei moesau da, goreu po leiaf a ddywedir. Geneth dafodrydd, aflednais oedd hi, yn hoffi dillad gwychion a moethau seguryd.

Bu'n gweithio yn Llundain a daeth oddi yno gyda, '. . . llawer o gyneddfau drwg, nad wyf fi yn hoffi eu coffáu . . .' medd y storïwr gan gyfleu'n gynnil beth fu tynged Deio, '. . . Eithr yr oedd y dialydd yn agos, nid pellach yn wir na'i gwely ei hun'.

Yn nodweddiadol o'r cyfnod yr hyn a deimlai rhieni Deio oedd y gwarth mwyaf iddo dynnu am eu pennau oedd, nid ei feddwdod na'r ymladdfeydd, na 'chwaith y modd y bradychodd y ferch ifanc, ond y ffaith iddo briodi â morwyn tŷ tafarn! Yn ôl safonau'r oes, gwarth oedd i ddyn neu i ferch briodi'n is na'i stad. Hwyrach fod y gymdeithas yn amau cymhellion priodasau felly.

Daeth bywyd Deio i ben fel y gellid disgwyl. Wedi i'w dad syrthio oddi ar ei geffyl a chael ei ladd, aeth Deio fwyfwy i ddyled a cholli'r cwbl a feddai. Fe'i harbedwyd rhag mynd i garchar wrth i'r plwyfolion gymryd trugaredd arno a chasglu digon o arian i'w yrru o'r wlad i 'Ogledd-dir America'.

Y mae gan Rowland Williams ddwy stori-gyfres arall yn *Y Gwyliedydd*; rhamant hanesyddol yw un a stori am ddewines yw'r llall. Ni fyddai neb o'i gyfoedion yn ei gysylltu â'r fath gynnyrch llenyddol. Ysgolhaig a hynafiaethydd ydoedd a noddwr beirdd ac eisteddfodau. Gŵr 'pell', anodd closio ato o ran cymeriad a'i hiwmor brathog yn dieithrio pobl. Ond y mae'r straeon 'poblogaidd' hyn yn werthfawr oherwydd eu bod yn enghraifft o ryddiaith greadigol Rowland Williams. Y tu ôl i'r ffugenwau yr oedd gwladwr a faged ym mhlwyf Mallwyd mewn cymdeithas uniaith Gymraeg. Er bod yr orgraff yn ddieithr i ni bellach, mae'r iaith yn gyfoethog ac yn idiomatig.


**YN EISIAU**

***Llyfr Cerdd Dannau***
Robat Gruffudd.
Argraffwyd yng
Nghaernarfon.

Unrhyw beth wedi ei
argraffu gan
W. J. Roberts
Llanrwst

Unrhyw beth am
Gwilym Cowlyd/Arwest
Glan Geirionydd

**RHYS MWYN**
**(01286) 672539**